


CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Y Maer: Doroithi Evans Mayor



Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Y Bala

Mai 11eg, 2017

Presennol: Y Maer, Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Doroithi Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Cyngorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (Clerc). Hefyd yn bresennol – Heddweision Lona Davenport ac Iwan Roberts.

Ymddiheuriadau: Eluned Jones, Alun Price

1. Diolchodd y Maer, Doroithi Evans, am yr anrhydedd o gael arwain Cyngor Tref Y Bala a diolchodd i'r cyn-Faer Edith Roberts am ei harweiniad urddasol. Croesawodd Rhys Owen fel Cyngorydd a thalodd deyrnged i'r cyn Gynghorydd Dilwyn Jones sydd wedi ymddeol ar ôl 50 mlynedd o wasanaeth ffyddlon i Gyngor Tref Y Bala.
2. **Cyhoedd:** Adroddodd fod achos o ddwyn wedi bod o'r ystafell gymunedol yn fflatiau'r henoed yng Nghysgod y Coleg. Cytunwyd i ysgrifennu at y cwmni tai "Cartrefi Cymunedol Gwynedd" i fynegi tristwch y Cyngor fod tenantiaid heblaw'r henoed yn awr yn cael eu gosod yn y fflatiau. Hefyd cytunwyd i ofyn iddynt wella eu mesurau diogelwch. Er nad ydyw Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn ddim byd i wneud efo Cyngor Gwynedd, cytunodd Cyngorydd Dilwyn Morgan hefyd i ysgrifennu at y cwmni.

Dywedodd yr Heddweision eu bod yn ymweld â'r Domen yn ystod pob shift yn dilyn yr ymgais diweddar i roi mainc ar dân. Anogodd y cyhoedd i ffonio 101 ar unwaith os ydynt yn amheus o unrhyw fath o gamymddygiad.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf pryd y trafodwyd parcio ar bont Tryweryn, mae'r Heddlu wedi galw i gynghori perchnogion y cerbydau.

3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.

4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 6ed, 2017.

5. Materion y Clerc:

- i. *Cofnod 10.i* Canolfan Tegid – mae dogfennau a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd wedi eu trosglwyddo i Bwyllgor y Ganolfan.
- ii. Derbyniwyd gohebiaeth gan Gomisiynydd yr Iaith yn mynegi pryder nad ydyw Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cadw at ei Gynllun Iaith ei hun. Mae'r Comisiynydd yn addo monitro darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ardaloedd megis Penllyn ar sawl lefel o fewn y Bwrdd Iechyd. Diolchwyd am yr ymateb hwn.
- iii. *Cofnod 5* Derbyniwyd y gwahoddiad i drefnu ymweliad i garchar Wrecsam pryd y gellid codi mater yr enw "Bala" ar un o'r ardaloedd yn y carchar. Cytunodd Y Maer, y Dirprwy Faer a Tony Parry i ymweld pan fydd dyddiad wedi ei drefnu. Cytunwyd i holi am y ddeiseb a drefnwyd yn lleol.
- iv. Darllenwyd a nodwyd gohebiaeth am y safle bws "ar gais" ar ben uchaf y Stryd Fawr. Cynigiodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i fonitro'r sefyllfa ac i ymweld â'r awdur.
- v. Y Domen - rhoddwyd caniatâd i gwmni teledu i ffilmio yno. Mae'r Gwasanaeth Tân yn gosod arwydd yno. Cytunodd y Clerc i chwilio am wybodaeth ar greu deddf leol i geisio atal camddefnydd o'r Domen.

6. **Cyngor Gwynedd:** Llongyfarchodd y Cynghorydd Sir Ann Thomas ar ennill gwobr mewn seremoni yn Llundain yn ddiweddar am ei gwaith yn arwain tîm i ddatblygu gofal iechyd i ddynion. Cytunodd y Cyngor hefyd i anfon llongyfarchiad ar ran y Cyngor Tref. Cyhoeddodd y Cynghorydd y bydd eitem ar y teledu ar y ffaith nad oes yr un siop wag ar Stryd Fawr Y Bala sydd yn fater o falchder i'r dref.

7. Parc Cenedlaethol Eryri a Materion Cynllunio:

- i. **NP5/53/LB70G** Y Llew Gwyn: cais i gadw gwaith mewnol sydd wedi ei wneud -*Cymeradwywyd*
- ii. **NP5/53/559 65** Cysgod y Coleg: newid defnydd rhan o ardal gymunedol i ddarparu drws blaen ar wahân - *Cymeradwywyd*
- iii. Gwrthwynebwyd cais **NP5/53/164D** Uned 5 Parc Menter (safle cyn System Scaffolding): Rhan 1 – adeiladu gorsaf lenwi olew tanwydd a portacabin. Rhan 2 Datblygu depo olew tanwydd yn cynnwys 4 tanc, sefydlu man llwytho/dadlwytho, lle parcio LGV/ceir a gwaith draenio cysylltiedig. *Gwrthwynebwyd* yn unfrydol am sawl rheswm:

- 1) Mae'r datblygiad - gyda pheryglon o nwyon andwyol, gollyngiad a tân - yn rhy agos i anheddau.
- 2) Mae'r datblygiad yn rhy agos i ffatri sydd yn cynhyrchu bwyd.
- 3) Mae'r safle yn ymyl ffordd bwysig, ac mae meithrinfa a lle chwarae plant yn ymyl.
- 4) Nid yw'r datblygiad yn gydnaws ag ardal o fewn Parc Cenedlaethol.
- 5) Nid yw'r datblygiad yn gydnaws gyda thref sydd yn ganolbwynt i dwristiaid.
- 6) Mae Llwybr Cyhoeddus poblogaidd yn ymyl y safle.
- 7) Mae'r safle ar orlifdir.
- 8) Mae trafndiaeth eisoes yn broblem fawr gan fod y ffordd yn arwain at ffatri, parc menter a chanolfan ail-gylchu.
- 9) Nid oes unrhyw werth economaidd a chyflogaeth i'r ardal yn y datblygiad

Derbyniwyd rhybudd ymlaen llaw am ymgynghoriad ar yr Adolygiad Ffurf Fer o Ddrafft Adnau Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun Coed Afalau am ddim a chytunwyd i drosglwyddo'r wybodaeth i Glwb Garddio Ysgol y Berwyn.

Derbyniwyd gwybodaeth am Warchodfa Awyr Dywyll.

Cytunodd Tony Parry i fynychu'r cyfarfod i Gynghorwyr yng Nghoed y Brenin.

8. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Derbyniwyd £11,000 sef taliad cyntaf y Praesept ac ad-daliad TAW sef £822.13. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
- iii. Cytunwyd i gyfrannu £800 i gronfa'r Maer, gyda'r posibilrwydd i gyfrannu mwy os bydd angen yn ystod y flwyddyn.

9. Gohebiaeth:

i. Gwynedd:

- a. Cytunwyd i beidio ag enwebu ar gyfer y Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd.
- b. Derbyniwyd rhaglen waith y mis, sef adnewyddu golau stryd ym Mlaenddol.

- ii. **Un Llais Cymru:** Cytunodd Rhys Evans i roi ei enw ymlaen ar gyfer hyfforddiant ar ddiwedd y mis.
- iii. **Arall:** Nid oedd sylwadau ar gais NMWTRA i gau'r A470 9.30 - 1.30 ar 3/9/17 ar gyfer y triathlon.

Cytunwyd i arddangos posteri gwleidyddol sy'n hysbysu syrjeri leol yn unig yn hysbysfwrdd y Cyngor.

Derbyniwyd llythyron o ddiolch gan Glwb Rygbi'r Bala a Chymdeithas Rhieni Ysgol y Berwyn. Mynegwyd siom nad oedd llawer o'r Cynghorwyr wedi gallu mynychu'r pnaawn agored.

Llwybr Rhif 1 – derbyniwyd rhybudd y bydd y llwybr ar gau yn ystod gwaith uwchraddio.

Nodwyd derbyn gohebiaeth gan Hosbis Tŷ Eos.

- 10. Partneriaeth Penllyn:** Nid oedd adroddiad gan y cynrychiolwyr. Mynegwyd y farn bod angen i Bartneriaeth Penllyn a chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd gyfarfod yn fuan i drafod mater toiledau cyhoeddus Y Bala.

11. Asedau'r Cyngor:

- i. Cytunwyd yn y Cyfarfod Blynyddol i waredu'r hen liniadur ac argraffydd. Adroddwyd bod yr asedau eraill mewn cyflwr da.
- ii. Ystyried darparu lloches bws – cytunwyd i drafod hwn yn y cyfarfod nesaf.

12. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Derbyniodd Cynghorydd gŵyn fod disgyblion hŷn yn cam-drin offer plant bach yn Heol y Castell. Cytunodd y Clerc i ohebu ar y mater.
- ii. Cytunodd y Clerc i dynnu sylw NMWTRA i'r perygl o ddamwain arall rhwng y Ganolfan Hamdden â Loch Cafe, ac i ofyn am osod rhwystr rhag i gerbydau ymhoelyd yno.
- iii. Adroddodd Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi tynnu sylw Adran y Priffyrdd at yr angen i ostwng y pafin wrth Awen Meirion er mwyn cyfleustra'r anabl.

Cymeradwywyd Contract Cyflogi Clerc. Mae'r fersiwn hon yn cael ei chymeradwyo gan SLCC ac Un Llais Cymru. Mae hwn yn disodli'r contract blaenorol.

Amser gorffen: 10.00pm